

Tudalen Deitl

Friday, December 13, 2019 2:49 PM

Enw: Dylan Evans

Rhif Myfyriwr: 1900303

Llwybr: TAR Cynradd

Targedau o'r aseiniad blaenorol

	Targed/Target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn What I have done in this assignment...
Targed 1	Cyswllt pendant rhwng theori ac arfer.	Wedi ceisio cyfeirio yn ôl at enghreifftiau darluniadol a hefyd ymchwilio yn fanwl am lenyddiaeth sy'n seiliedig ar y topig
Targed 2	Parhau i wirio gwaith ysgrifenedig yn ofalus a sicrhau dealltwriaeth o reolau ieithyddol megis rhedeg berfau a defnyddio ei/eu.	Wedi drafftio ac ail-ddrafftio gwaith er mwyn sicrhau cywirdeb, wedi ceisio darllen dros y gwaith yn fanwl ar ôl orffen a defnyddio darlithoedd gloywi iaith er mwyn gwella iaith.


Dolen i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900303_student_uwtsd_ac_uk/EgyLiuR9ICNtV24_jxLPe4BVoEy3FORbp-sq79XL9PHWw

Enghraifft ddarluniadol 1

Friday, December 13, 2019 2:58 PM

40 Munud Addysgu a Dysgu Craidd	Yn gyntaf dechrau cael trafodaeth efo'r disgyblion am beth sydd yn gwneud portread da. Ffocysu yn benodol ar: - Strwythur - Defnydd o eirfa greadigol - Atalnodi	Tasg 1: Disgyblion yn meddwl am beth sydd yn gwneud portread da. Trafod mewn grwpiau am 2 funud a rhoi adborth nol ar ffordd lafar yn ôl i'r dosbarth. Disgyblion yn cynnig atebion o'r meini prawf llwyddiant llwyddiannus. Byddai yn rhoi atebion y disgyblion lawr ar y sgrin fawr.	PowerPoint Templedi cynllunio Tafenni Gwaith blaenorol
--	--	--	--

Yn ail, cael y disgyblion i feddwl a chreu meini prawf llwyddiant am y portread. Yn olaf, bydd y disgyblion yn defnyddio templed i ddechrau cynllunio'r portread. Byddaf yn monitro grwpiau wrth iddynt weithio ar y cynllunio. Byddaf yn rhoi adborth cloi a sicrhau bod y disgyblion yn dilyn y meini prawf llwyddiant.	Tasg 2: Dechrau strwythuro'r portread trwy ddefnyddio'r meini prawf fel cymorth. Disgyblion i ymateb i unrhyw adborth a holi cwestiynau ymhellach nos and ydyn nhw'n deall. Ffocysu ar ddefnyddio geirfa greadigol.	
---	---	--



Yn ystod gwers Saesneg gyda dosbarth Blwyddyn 4 defnyddiais feini prawf llwyddiant fel ffyrdd o asesu ar gyfer dysgu. Trwy ddefnyddio meini prawf llwyddiant teimlaf fel bod gyda'r disgyblion set o dargedau ac roedden nhw yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt i lwyddo wrth greu portread am gymeriad allan o'r 'Twits' gan Roald Dahl. Fel gweler wedi'i amlygu mewn gwyrd, roedd gan y disgyblion berchnogaeth o'r hyn oedd ei angen er mwyn bod yn llwyddiannus wrth ysgrifennu'r portread. Penderfynais ddefnyddio mewnbyn y disgyblion i greu'r meini prawf gan fod defnydd 'llais y disgybl' yn flaenoriaeth yn fy ysgol lleoliad ac fe wnaeth y prifathro annog i mi ddefnyddio llais y disgybl i gynllunio gwersi. Mae Clarke, (2008) yn dadlau bod rhaid i feini prawf llwyddiant gael eu cynhyrchu gan ddisgyblion, os na, mae'n cael llai o effaith ar ddysgu, felly ceisiaf ddefnyddio'r disgyblion wrth greu meini prawf llwyddiant. Teimlaf fod gosod meini prawf llwyddiant wedi cael effaith positif ar ddysgu'r disgyblion gan fod yna disgwyliadau clir o sut i lwyddo. Yn ogystal â hyn, roedd defnyddio llais y disgybl i gynllunio'r meini prawf yn ddefnyddiol gan fod pob elfen o'r meini prawf wedi dod o waith a wnaed yn flaenorol yn y dosbarth; felly roedd y disgyblion yn teimlo'n hyderus i lwyddo. Serch hynny, mae rhaid i mi sicrhau bod y meini prawf llwyddiant yn galluogi i ddisgyblion o bob gallu i lwyddo. Fel y gweler yn yr ail lun mae'r disgybl wedi methu a chyflawni rhai elfennau o'r meini prawf llwyddiant, felly yn y dyfodol

flaenorol yn y dosbarth; felly roedd y disgyblion yn teimlo'n hyderus i lwyddo. Serch hynny, mae rhaid i mi sicrhau bod y meini prawf llwyddiant yn galluogi i ddisgyblion o bob gallu i lwyddo. Fel y gweler yn yr ail lun mae'r disgybl wedi methu a chyflawni rhai elfennau o'r meini prawf llwyddiant, felly yn y dyfodol bydd rhaid gwahaniaethu'r meini prawf i'r disgyblion o allu is.

Enghraifft ddarluniadol 2

Friday, December 13, 2019 2:58 PM

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 Munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Cyflwyniad agoriadol i fynd dros yr amcanion dysgu. Holi cwestiynau i'r disgyblion er mwyn sbarduno. Digon o gwestiynau ar y bwrdd gwyn er mwyn cael ymarfer a model o sut i adio'r symiau yn gywir yn cael ei osod ar y bwrdd gwyn. Dangos llun o swm wedi cael ei wneud yn anghywir. Disgyblion yn trafod yn cloi am beth sydd yn anghywir a beth sydd eisiau wneud er mwyn gwella.	- Disgyblion yn trafod am beth sydd yn anghywir ar y bwrdd gwyn. Disgybl yn dod lan ac ysgrifennu'r dull cywir ar y bwrdd gwyn. - Cwestiynau yn cael ei osod ar y bwrdd gwyn a disgyblion yn ei ateb nhw trwy ddefnyddio byrddau gwyn bach. Adborth nol trwy dal byrddau gwyn i fyny.	Bwrdd gwyn Pwerbwynt Byrddau gwyn bach lechyd a Diogelwch: Digon o le i'r disgybl dod lan i du blaen y dosbarth. Bagiau o dan y ford.

Ffordd arall o asesu ar gyfer dysgu a defnyddiais oedd rhoi bwrdd gwyn unigol i'r disgyblion mewn gwers Mathemateg Blwyddyn 4. Defnyddiais fyrddau gwyn unigol gan fy mod i wedi arsylwi ar athrawes brofiadol yn defnyddio'r un dechneg mewn ysgol roeddwn i yn gweithio ynddo o'r blaen. Teimlaf fod rhoi cwestiynau ar y bwrdd gwyn mawr a chael y disgyblion i ateb y cwestiwn ar eu byrddau gwyn unigol yn ffordd effeithiol o asesu ar gyfer dysgu. Yn gyntaf, wrth i'r disgyblion dal eu hatebion i fyny ar eu byrddau gwyn dwi'n cael asesiad cloi o lefelau Mathemategol y dosbarth. Roedd hyn yn ddefnyddiol tu hwnt yn ystod yr wythnos gyntaf o PAP1 le roeddwn i dal yn dod yn gyfarwydd efo lefelau gallu'r dosbarth. Wrth gael cipolwg ar allu'r dosbarth, roeddwn i yn gallu gweld pa dasgau roedd yn addas ar gyfer pob unigolyn a hefyd gwario fwy o amser yn rhoi cymorth i'r disgyblion roedd wedi gweld y cwestiwn yn heriol. Ymhellach, trwy ddefnyddio byrddau gwyn, mae gwneud cywiriadau bach yn hawdd gwneud a theimlaf fod y disgyblion yn poeni llai am wneud camgymeriadau ar y byrddau gwyn i gymharu efo gwneud camgymeriad yn eu llyfrau. Roedd hyn yn gwneud y disgyblion yn fwy tebygol i roi cynnig ar gwestiynau mwy heriol. Efallai yn y dyfodol bydd angen i mi sicrhau bod y disgyblion ar dasg, gan fod ambell ddisgybl yn defnyddio'r byrddau gwyn i wneud lluniau neu ddwdlan. Bydd angen i mi sicrhau bod cwestiynau newydd yn cael eu rhoi er mwyn i'r disgyblion beidio â diflasu a cholli diddordeb

Enghraifft ddarluniadol 3

Friday, December 13, 2019 2:58 PM

40 Munud			
Addysgu a Dysgu Craidd	Byddaf yn dosbarthu tasgau gwahaniaethol er mwyn i'r plant ymarfer y MPLL penodol. Byddaf yn cerdded o amgylch y dosbarth er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac i wirio unrhyw wallau. Oes bydd eisïau, byddaf yn atal y wers os ydw i yn gweld camgymeriadau cyffredin. Byddaf yn ail esbonio'r camgymeriadau cyffredin ar y	Tasg 1: Disgyblion yn gweithio ar y berthynas rhwng lluosï a rhannu, yn benodol tabl 4 a 8 gan fod y disgyblion wedi bod yn gweithio ar y tablau hyn yn y gwersi blaenorol. Er mwyn gwahaniaethu bydd y disgyblion gallu is yn gweithio ar dablau 2 a 5 a 10. Disgyblion grŵp uwch yn gweithio ar dablau 6 a 7.	Taflenni Gwaith Cardiau coch, melyn a gwyrdd.

Byddaf yn rhoi cardiau coch, melyn a gwyrdd i bob disgybl. Coch = dim yn deall, melyn = hanner a hanner a gwyrdd = deall y dasg.

Dadansoddiad Adfyfyrïol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaid	
Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol	- Cardiau coch, melyn a gwyrdd wedi gweithio fel ffordd dda o asesu ar gyfer dysgu. Yn weladwy felly roeddwn i yn gallu rhoi cymorth i'r disgyblion roedd eisïau yn syth. - Tasgau rhyngweithiol ar fyrddau gwyn - Sicrhau dealltwriaeth cyn dechrau - Tasgau gwahaniaethol - Cyflwyniad da i esbonio
Meysydd ar gyfer fy Natblygiad	- Cadw ar ben y marcio er mwyn gallu asesu dealltwriaeth am wersi'r dyfodol - Sicrhau bod yr amcanion wedi ei ysgrifennu lawr ar y bwrdd gwyn ac i gyfeirio atyn nhw trwy'r wers
Targedau Personol ar gyfer Cynnydd	

Yn ogystal â defnyddio byrddau gwyn mewn gwrs Mathemateg Blwyddyn 4, fe hefyd defnyddiais gardiau lliw. Des i ar draws y syniad trwy ymchwilio mewn i dechnegau asesu ar gyfer dysgu ar y rhyngwyd. Hefyd, fe wnes i ddarllen gwaith Gardner, (2012) le mae'n awgrymu bod defnyddio cardiau lliw le mae carden wyrdd yn nodi bod y disgybl yn hyderus yn y dasg, carden felen yn rhannol ansicr a charden goch yn nodi bod y disgybl yn gwbl aneglur yn ddangosydd da o hyder am y dasg/cwestiwn. Fel gwelir uwchben defnyddiais y syniad hwn fel ffordd o asesu ar gyfer dysgu. Darganfyddai fod y defnydd o gardiau lliw yn ddefnyddiol gan ei fod yn ffordd weladwy o weld pa ddisgyblion roedd eisïau cymorth. Teimlaf fod atal y wers hanner ffordd trwyddo er mwyn i'r disgyblion dal i fynny y cardiau lliw yn arf buddiol gan ei fod yn galluogi mi rhoi mwy o gymorth i'r disgyblion roedd yn dal i fynny y cardiau coch neu felyn. Wrth roi cymorth ychwanegol i'r disgyblion roedd ei angen y nod oedd erbyn diwedd y wers byddant yn dangos carden wyrdd i fynny, mae hyn yn dangos eu bod nhw wedi gwneud cynnydd. Fel y gwelir yn fy sylwadau adfyfyrïo roedd y dechneg hon yn effeithiol ac fe wnes i ei ddefnyddio yn weddol gyson trwy gydol PAP1. Serch hynny, ni ddylwn fod yn or-ddibynnol ar y dechneg hon oherwydd gall fynd yn ddiflas ac efallai bydd disgyblion sydd yn ansicr am y dasg yn dangos cerdyn awydd er mwyn osaoi cael adborth neu i wneud ffw o waith. felly bydd v

ddefnyddio yn weddol gyson trwy gydol PÁP1. Serch hynny, ni ddylwn fod yn or-ddibynnol ar y dechneg hon oherwydd gall fynd yn ddiflas ac efallai bydd disgyblion sydd yn ansicr am y dasg yn dangos cerdyn gwyrdd er mwyn osgoi cael adborth neu i wneud fwy o waith, felly bydd y cardiau yn colli eu pwrpas.

Enghraifft 1 – datrys problemau

Friday, December 13, 2019 3:01 PM

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 Munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Cyflwyniad agoriadol i fynd dros yr amcanion dysgu. Holi cwestiynau i'r disgyblion er mwyn sbarduno. Digon o gwestiynau ar y bwrdd gwyn er mwyn cael ymarfer a model o sut i adio'r symiau yn gywir yn cael ei osod ar y bwrdd gwyn. Dangos llun o swm wedi cael ei wneud yn anghywir. Disgyblion yn trafod yn cloi am beth sydd yn anghywir a beth sydd eisiau wneud er mwyn gwella.	1. Disgyblion yn trafod am beth sydd yn anghywir ar y bwrdd gwyn. Disgybl yn dod lan ac ysgrifennu'r dull cywir ar y bwrdd gwyn. 2. Cwestiynau yn cael ei osod ar y bwrdd gwyn a disgyblion yn ei ateb nhw trwy ddefnyddio byrddau gwyn bach. Adborth nol trwy dal byrddau gwyn i fyny.	Bwrdd gwyn Pwerbwynt Byrddau gwyn bach Iechyd a Diogelwch: Digon o le i'r disgybl dod lan i du blaen y dosbarth. Bagiau o dan y ford.



Ffordd o ddatblygu sgiliau datrys problemau yn wers Mathemateg Blwyddyn 4 oedd rhoi swm anghywir i fyny ar y bwrdd gwyn a gadael i'r disgyblion gweithio allan beth oedd angen cywiro. Penderfynais ddefnyddio'r dechneg hyn ar ddechrau gwrs Mathemateg er mwyn sbarduno meddylion y disgyblion i fodd mathemategol. Cefais y syniad trwy arsylwi athrawes brofiadol ysgol uwchradd yn defnyddio techneg debyg yn wers Cymraeg er mwyn hybu sgiliau datrys problemau a sgiliau trafod. Darganfyddai fod y dechneg yn un effeithiol ond bod eisiau ychydig o gymorth gan ambell ddisgybl o allu is. Erbyn y wers nesaf, penderfynais gael y disgyblion trafod efo'i gilydd fesul grŵp er mwyn ddatrys y broblem. Teimlaf fod cael y disgyblion i drafod efo'i gilydd yn llawer mwy effeithiol gan ei fod yn llawer mwy hwylus datrys problem fel grŵp yn lle ceisio datrys y broblem yn dawel yn feddyliau eu hunain. Ymhellach, wrth weithio fel grŵp arsylwais arweinwyr yn dod i'r amlwg wrth iddyn nhw gynorthwyo disgyblion gallu is ac arwain y drafodaeth. Defnyddiais y ffyrdd hyn o hybu sgiliau datrys problemau ar ddechrau mwyafrif o wersi Mathemateg. Yn y dyfodol, mae'n bosib i mi ddefnyddio'r un dechneg mewn gwrsi iaith Cymraeg, e.e. gosod brawddegau efo treigladau neu atalnodi anghywir i'r dosbarth cael cywiro. Ond, mae rhaid i mi sicrhau hefyd mod i yn rhoi digon o amser i'r disgyblion meddwl am sut i ddatrys y broblem, gan fy mod i yn dueddol o ddim rhoi digon o amser iddynt feddwl.

Enghraifft 2 – sgiliau creadigol

Friday, December 13, 2019 3:01 PM





Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales



Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Athro dan hyfforddiant	Dylan Evans	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Gwers Thema – Roald Dahl (Awyr agored)	Dyddiad:	18.11.19
Ffocws Gwers:	Creu collage naturiol trwy ddefnyddio adnoddau o'r awyr agored.		



Yn ystod PAP1 fe wnes i gynnal gwers yn yr awyr agored i ddosbarth Blwyddyn 4. Teimlaf fod awers vn vr awvr agored vn hvbu sailiau creadiaol v disavblion aan ei fod vn llai strwvthuredia

Yn ystod PAP1 fe wnes i gynnal gwrs yn yr awyr agored i ddosbarth Blwyddyn 4. Teimlaf fod gwrs yn yr awyr agored yn hybu sgiliau creadigol y disgyblion gan ei fod yn llai strwythuredig na gwrs arferol yn y dosbarth. Roedd gan y disgyblion rhyddid i greu collage o Mr neu Mrs Twit trwy ddefnyddio'r adnoddau naturiol allan yn yr awyr agored. Dewisais ddefnyddio gwrs yn yr awyr agored i hybu sgiliau creadigol y disgyblion trwy gyngor gan fy mentor dosbarth a oedd wedi bod ar gwrs gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â dysgu yn yr awyr agored. Penderfynais ymchwilio ar y rhyngwrdd am syniadau a des i ar draws gwaith Maynard, Waters a Clement (2013). Maen nhw'n awgrymu bod dysgu yn yr awyr agored yn hybu'r disgyblion i gymryd perchnogaeth o'r dysgu, hybu sgiliau creadigol a rhoi cyfle i'r disgyblion sydd yn tangyflawni yn y dosbarth i ddisgleirio. Teimlaf fod dysgu yn yr awyr agored wedi datblygu sgiliau creadigol y disgyblion, ac roedd yn braf i weld esiamplau creadigol tu hwnt fel y weler uwchben. Credaf fod y disgyblion o allu is mewn pynciau craidd wedi serennu yn eu sgiliau creadigol. Roedd o'n wych i weld y disgyblion hyn yn cyfrannu yn hyderus i'r wers, le yn wers arferol yn y dosbarth bydyn nhw yn llai hyderus i gyfrannu. Serch hynny, fe wnaeth bob disgybl mwynhau'r wers a deimlaf fod datblygiad mewn sgiliau creadigol yn pob disgybl. Roedd y tywydd yn braf yn ystod y wers hon ond, yn y dyfodol, mae rhaid i mi ystyried y tywydd wrth gynllunio gan ei fod ddim yn bosib cynnal wers yn yr awyr agored mewn tywydd gwael.

Enghraifft 3 – meddwl mewn modd beirniadol

Friday, December 13, 2019 3:02 PM

30 Munud Addysgu a Dysgu Craidd	Rhaid i'r disgyblion gweithio mewn grwpiau i gynhyrchu dau gymeriad gwahanol. Un cymeriad efo gwybodaeth proffil ar-lein cyhoeddus a'r llall y mae'n rhaid cynnwys gwybodaeth bersonol neu breifat. Byddaf yn dosbarthu tasgau gwahaniaethol er mwyn i'r plant ymarfer y MPLL penodol. Byddaf yn cerdded o amgylch y dosbarth er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac i wirio unrhyw wallau. Hefyd yn holi cwestiynau i'r grwpiau am pam maen nhw'n dewis rhoi'r wybodaeth benodol ar y cymeriad hynny.	Tasg 1: Disgyblion yn gweithio mewn grwpiau i roi gwybodaeth mewn i ddau gymeriad. Cymeriad 1: llenwi efo wybodaeth sydd yn addas i roi ar-lein Cymeriad 2: Gwybodaeth bersonol/breifaf Er mwyn gwahaniaethu'r dasg byddaf yn cael grwpiau gallu uwch i gynllunio'r cymeriadau yn eu llyfrau a bydd yna gymorth ar gael efo rhestr o wybodaeth Tasg 2: Trafodaeth mewn grŵp ar sut byddai'r disgyblion yn teimlo fod fel cymeriad 1 a 2 mewn sefyllfaoedd gwahanol. E.e. 'Sut byddwch yn teimlo yn y dref fel cymeriad 2 le mae pawb yn gwybod eich gwybodaeth bersonol?'. Disgwyl i'r disgyblion esbonio pam byddwn yn teimlo fel pa bynnag cymeriad mewn sefyllfa gwahanol. E.e. 'Ddim yn teimlo yn ddiogel i bobl ddieithr gwybod am fy nghyfeiriad gartref oherwydd.....' Tasg 3/Her: Ysgrifennu brawddeg ynglŷn ar drafodaeth ar bob sefyllfa.	
--	---	---	--

Y ffordd cefais ddisgyblion Blwyddyn 4 i feddwl mewn modd beirniadol oedd gofyn iddyn nhw esbonio rhesymau pam mae'n beryglus rhannu gwybodaeth bersonol ar-lein. Penderfynais gwestiynu'r disgyblion ynglŷn â'i atebion gan fod y wers yn un bwysig ble roedd yna ddisgwyliadau i'r disgyblion fod yn ymwybodol a gallu esbonio peryglon o roi gwybodaeth bersonol ar-lein. Teimlaf fod yn bwysig i'r disgyblion meddwl yn fodd beirniadol oherwydd bod y testun yn un weddol sensitif ac efallai y bydd angen iddynt ystyried eu barn feirniadol mewn sefyllfaoedd yn y dyfodol wrth iddynt heneiddio. Roedd o'n braf i weld disgyblion Blwyddyn 4 meddwl yn feirniadol a hefyd rhoi barn aeddfed am bwnc pwysig ac y roedd yn fuddiol i gynnwys pob disgybl yn y drafodaeth ar ddiwedd y wers er mwyn iddyn nhw rannu syniadau ar y testun. Mae rhaid i mi ystyried strategaethau gwahanol o feddwl yn feirniadol mewn i wersi'r dyfodol. Gallai fod yn syniad i roi deg munud ar ddiwedd gwersi iaith i feddwl yn feirniadol ar sut i wella gwaith. Ond, er mwyn i'r syniad hyn i weithio bydd eisiau i mi gynllunio yn fwy manwl a sicrhau bod amser ar ddiwedd y wers i'r disgyblion cael meddwl yn feirniadol ar sut i wella eu gwaith.

Enghraifft ddarluniadol 1 Llythrennedd

Friday, December 13, 2019 2:55 PM

Athro dan hyfforddiant	Dylan Evans	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Gwers Thema – Roald Dahl (Awyr agored)	Dyddiad:	18.11.19
Ffocws Gwers:	Creu collage naturiol trwy ddefnyddio adnoddau o'r awyr agored.		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Celf - Ymchwilio i'r amgylchedd awyr agored - Trefnu adnoddau - Gwneud patrymau naturiol ac wedi eu gwneud - Siâp - siapau o fyd natur - Gweithio mewn awyr agored o fewn grŵp		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Celf - Ymchwilio i'r amgylchedd awyr agored - Trefnu adnoddau - Gwneud patrymau naturiol ac wedi eu gwneud - Siâp - siapau o fyd natur - Gweithio mewn awyr agored o fewn grŵp Llythrennedd (Saesneg) - Contribute to group discussion and help everyone take part - Help a group to reach agreement, e.g. considering reasons or consequences, keeping focus on the topic Rhifedd - Defnyddio siapau gwahanol - Mesur gwahanol eitemau		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol) Mae fy mentor a minnau wedi cytuno taw fy mhrif darged am yr wythnos yma yw sicrhau bod yna wahanol ffurfiau o asesu ar gyfer dysgu yn cael ei ddangos.			

Cefais gyfle i wella sgiliau llythrennedd disgyblion Blwyddyn 4 yn drawsgwricwlaidd trwy gael iddyn nhw drafod gyda'i gilydd mewn grwpiau am syniadau am sut i gynllunio collage effeithiol mewn gwers awyr agored. Penderfynais gael y disgyblion i drafod syniadau efo'i gilydd gan fod datblygu sgiliau cyfathrebu yn ddarn hanfodol o'r cwricwlwm ar hyn o bryd (Hwb.gov, Wales, 2016). Gan fod thema'r tymor oedd Roald Dahl, roedd y wers wedi'i gynnal yn y Saesneg. Roeddwn i yn teimlo ei fod yn bwysig i gael y disgyblion trafod syniadau efo'i gilydd yn Saesneg gan ddaw Cymraeg yw iaith gyntaf yr ysgol. Ymhellach, trwy ymgorffori sgiliau llythrennedd Saesneg mewn i'r wers mae'n debygol fydd y disgyblion yn elwa o'r siawns i gyfathrebu mewn dwy iaith. Mae Estyn, (2018) yn mynegi'r farn bod plant dwyieithog yn fwy tebygol o fod yn oedolion hyderus. Teimlaf fel bod y disgyblion wedi cyfrannu yn dda trwy gyfrwng y Saesneg ac yn y dyfodol dylent gael y cyfle i wella sgiliau llythrennedd Saesneg yn fwy aml. Mae hefyd eisiau i mi atgoffa fy hun o adael i bob disgybl cael siawns i gyfrannu, gan ddaw'r disgyblion mwyaf hyderus roedd yn cynnig atebion i mi ar ddiwedd y wers.

Enghraifft ddarluniadol 2 Rhifedd

Friday, December 13, 2019 2:55 PM

Ffocws Gwers:	Darllen 'The Twits' a dod yn gyfarwydd ag ansoddeiriau i ddisgrifio Mr Twit.
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	Literacy - Encourage pupils to listen carefully and ask relevant questions to reinforce and build on understanding - Shared reading - Guided reading - Teacher led annotation of a text, highlighting key features, use of language and organisation of text. - Proof reading own work - Identify key characters
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Literacy - Encourage pupils to listen carefully and ask relevant questions to reinforce and build on understanding - Shared reading - Guided reading - Teacher led annotation of a text, highlighting key features, use of language and organisation of text. - Proof reading own work Rhifedd - Defnyddio diagram Venn i ddosbarthu ansoddeiriau.

Yn ystod gwers thema (Saesneg) Blwyddyn 4, defnyddiais ddiagram Venn i ddosbarthu ansoddeiriau i'r ochr berthnasol o'r diagram. Penderfynais ddefnyddio Diagram Venn mewn gwers Saesneg er mwyn i'r disgyblion dod yn gyfarwydd efo sut i ddefnyddio Diagram Venn gan fy mod wedi paratoi gwers Mathemateg lle'r oedd angen defnyddio Diagram Venn i ddosbarthu rhifau. Yn ogystal â hyn, teimlaf fel bod dosbarthu ansoddeiriau mewn i graff syml dim yn herio'r disgyblion digon ac roedd eisau i mi herio nhw ymhellach i ddefnyddio graff newydd a fydd yn ddefnyddiol yn y dyfodol. Teimlaf fod y disgyblion wedi elwa o ddosbarthu ansoddeiriau mewn i'r diagram gan erbyn y wers Mathemateg mewn ychydig ddyddiau roedd y disgyblion yn gyfforddus ac yn hyderus defnyddio'r diagram wrth ddefnyddio rhifau yn lle geiriau. Roeddwn i yn teimlo ei fod yn heriol i ymgorffori rhifedd yn drawsgwricwlaidd. Yn y dyfodol mae eisau i mi archwilio am fwy o syniadau ar y rhyngwryd a thrafod efo athrawon mwy profiadol er mwyn rhannu syniadau. Wrth gael elfennau rhifedd ar draws y cwricwlwm teimlaf fod hyn yn mynd i wneud y gwersi yn fwy heriol a hefyd hybu sgiliau meddwl a chreadigol y disgyblion.

Enghraifft ddarluniadol 3 Cymhwysedd Digidol

Friday, December 13, 2019 2:55 PM

60 Munud Addysgu a Dysgu Craidd	Byddaf yn dosbarthu templedi o ffeil o ffaith. Bydd y templedi wedi cael ei wahaniaethu. Byddaf yn cerdded o amgylch y dosbarth yn atgoffa'r disgyblion am y meini prawf a pa wybodaeth sydd eisiau cyflawni.	1. Yn gyntaf bydd y disgyblion yn mynd ar wefan Roald Dahl ac yn darllen y wybodaeth sydd ar yr adran 'about me'. Er mwyn gwahaniaethu bydd taflen gwybodaeth syml wedi cael ei osod i ddisgyblion o allu is. 2. Yr ail dasg bydd defnyddio'r wybodaeth maent wedi ei darganfod er mwyn dechrau llenwi yn y ffeil o ffaith. Unwaith eto, bydd templedi gwahanol i wahanol allu. Gyda thempled clir i allu uwch a thempled efo pwyntiau i allu is. Efallai bydd ddim pob darn o wybodaeth ar y gwefan, felly bydd rhyddid i'r disgyblion darganfod gweddill y wybodaeth trwy edrych ar y rhyngwrwyd.	iPad/Cyfrifiaduron/gliniaduron Taflenni templed ffeil o ffaith Y rhyngwrwyd
---	--	--	---

Cefais gyfle i weithio ar sgiliau cymhwysedd digidol dosbarth Blwyddyn 4 yn ystod gwrs thema, le nod y dasg oedd creu ffeil o ffeithiau amdano Roald Dahl. Penderfynais ddosbarthu'r disgyblion mewn i grwpiau fesul tri. Tasg y grwpiau oedd darganfod gwybodaeth am Roald Dahl trwy ddefnyddio cyfrifiaduron, iPads a gliniaduron. Fel gweler uwchben cafodd y disgyblion rhyddid i ddefnyddio pa bynnag gwefan roedd eu hangen arny'n nhw, felly roedd yna elfen o'r disgyblion yn arwain y dysgu; gwelais fod gan hwn effaith bositif ar y wers. Penderfynais ddefnyddio technoleg i ymchwilio gwybodaeth ar ôl darllen astudiaeth Price-Dennis, Holmes a Smith (2015). Mae'r astudiaeth yn awgrymu'r dull ymchwil a ffafrir gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 oedd defnyddio offer digidol. Teimlaf fod ymchwilio gwybodaeth ar offer digidol yn ffordd dda o ddod o hyd i wybodaeth newydd ac roedd ymglymiad y disgyblion yn uwch gan eu bod yn defnyddio offer sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Anfantais defnyddio offer digidol oedd y ffaith bod yna dim digon o offer i bob disgybl cael gweithio yn unigol. Ymhellach, teimlaf fel petai'r defnydd o offer digidol yn bositif tu hwnt er mwyn datblygu sgiliau cymhwysedd digidol disgyblion. Ond ar y llaw arall, mae yna ddiffyg cyllid mewn ysgolion sydd ddim yn galluogi pob disgybl cael dyfais unigol; mae hyn yn rhywbeth byddaf yn trafod mewn mwy o fanylder yn y darn myfyrdod beirniadol.

Myfyrdod beirniadol

Friday, December 13, 2019 3:06 PM

Yn ystod yr adran hon byddaf yn adfyfyrio ar fy mhrofiadau yn ystod y profiad addysgu proffesiynol cyntaf. Cefais y profiadau hyn mewn dosbarth Blwyddyn 4, mewn ysgol wledig yn Orllewin Cymru ble Cymraeg roedd iaith gyntaf yr ysgol. Roedd tua 200 o ddisgyblion yn yr ysgol ac 27 yn fy nosbarth i. Wrth adfyfyrio byddaf yn cyfeirio at lenyddiaeth ar addysgu a dysgu da yn seiliedig ar yr egwyddor addysgeg sydd dan ystyriaeth. Ymhellach, byddaf yn adfyfyrio'n feirniadol ar sut rwyf wedi gweithredu'r tair egwyddor addysgeg ac yn rhoi argymhellion o sut i wella a datblygu'r egwyddorion hyn yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn hynod o bwysig i gynllunio gwersi dychmygus a chreadigol (Kerry, 2015). Ar ddechrau PAP 1 teimlaf fel fy mod i yn gorfodi i bob gwers cael elfennau trawsgwricwlaidd. Ond, ar ôl cymorth gan fy mentor penderfynais dethol a dewis a cheisio cael gwersi efo elfennau trawsgwricwlaidd o ansawdd yn lle gorfodi'r elfennau pob gwers. Mae gwaith Savage (2010) yn cyd-fynd efo fy nheimpladau gan ei fod yn pwysleisio'r pwysigrwydd o wersi trawsgwricwlaidd yn y gynradd, ond gwersi o ansawdd. Fel y gwelir yn enghraifft ddarluniadol 1 o'r adran 'Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd', cefais gyfle i wella sgiliau llythrennedd y disgyblion trwy hybu sgiliau cyfathrebu yn y Saesneg mewn gwers celf awyr agored. Penderfynais gael y disgyblion i drafod syniadau efo'i gilydd gan fod datblygu sgiliau cyfathrebu yn ddarn hanfodol o'r cwricwlwm ar hyn o bryd (Hwb.gov,Wales, 2016). Roeddwn i yn teimlo ei fod yn bwysig i gael y disgyblion trafod syniadau efo'i gilydd yn Saesneg gan ddaw Cymraeg yw iaith gyntaf yr ysgol. Ymhellach, trwy ymgorffori sgiliau llythrennedd Saesneg mewn i'r wers mae'n debygol fydd y disgyblion yn elwa o'r siawns i gyfathrebu mewn dwy iaith. Mae Estyn, (2018) yn mynegi'r farn bod plant dwyieithog yn fwy tebygol o fod yn oedolion hyderus. Ymhellach, mae astudiaeth Joe, Tocci a Holtzman, (2012) yn awgrymu bod trafodaethau rhwng disgyblion yn mynd i elwa'r dysgu. Ynglŷn â hybu sgiliau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd, roeddwn i'n teimlo ei fod yn naturiol i ychwanegu sgiliau llythrennedd yn fwyafrif y gwersi gan roedd y disgyblion yn trafod a darllen yn ystod y gwersi. Efallai yn y dyfodol ychwanegu geirfa fwy cymhleth er mwyn ymestyn sgiliau'r disgyblion. Ond fel y crybwyllwyd, teimlaf fy mod wedi dangos datblygiad mewn hybu sgiliau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd i gymharu efo sgiliau rhifedd fel y byddaf yn trafod yn y rhan nesaf.

I gymharu efo cynnwys sgiliau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd, roeddwn i'n gweld hi'n anodd cynnwys sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Hawlia gwaith Geiger et al, (2014) ei fod yn bwysig cysylltu sgiliau rhifedd mewn i'r cwricwlwm er mwyn datblygu sgiliau datrys problemau. Mae'r gwaith hyn yn cyd-fynd efo un o ddibenion Donaldson (2015) lle mae o eisiau cyfranwyr mentrus a chreadigol. Fel y gwelir mewn enghraifft ddarluniadol 2, defnyddiais Ddiagram Venn mewn gwers Saesneg. Penderfynais ddefnyddio Diagram Venn mewn gwers Saesneg er mwyn i'r disgyblion dod yn gyfarwydd efo sut i ddefnyddio Diagram Venn gan fy mod wedi paratoi gwers Mathemateg lle'r oedd angen defnyddio Diagram Venn i ddosbarthu rhifau. Yn ogystal â hyn, teimlaf fel bod dosbarthu ansoddeiriau mewn i graff syml dim yn herio'r disgyblion digon ac roedd eisiau i mi herio nhw ymhellach i ddefnyddio graff newydd a fydd yn ddefnyddiol yn y dyfodol. Teimlaf fod y disgyblion wedi elwa o ddosbarthu ansoddeiriau mewn i'r diagram gan erbyn y wers Mathemateg mewn ychydig ddyddiau roedd y disgyblion yn gyfforddus ac yn hyderus defnyddio'r diagram wrth ddefnyddio rhifau yn lle geiriau. Serch hynny, yn gyffredinol roedd yn anodd cael elfennau rhifedd mewn gwersi gwahanol. Yn ystod PAP 2, mae eisiau i mi edrych ar fy hun a sut alla i ddatblygu sgiliau rhifedd fy hun cyn addysgu'r disgyblion. Mae eisiau i mi ddod allan o'r arfer o feddwl bod rhifedd dim ond fod mewn gwersi Mathemateg. Credaf Thornton a Hogan, (2005) mae eisiau i'r athro dod lan a syniadau creadigol i sicrhau bod rhifedd yn cael ei addysgu ar draws y cwricwlwm. Cyn PAP 2, bydd eisiau i mi edrych am syniadau creadigol i sicrhau cynnydd mewn sgiliau rhifedd y disgyblion.

Yn olaf, ceisiais ddatblygu sgiliau cymhwysedd digidol (CD) yn drawsgwricwlaidd. Unwaith eto, roedd hyn yn her, ond am resymau gwahanol. Mae yna bwyslais enfawr ar CD yn gwricwlwm newydd Donaldson, (2015). Ymhellach, mae dulliau technolegol a rhyngweithiol wedi newid y dulliau dysgu (Furio et al., 2015) gan fod dulliau technolegol yn cynnig amgylchedd dysgu gweithredol (de Koning-Veenstra et al., 2014). Er gwaethaf y manteision o ddefnyddio dulliau technolegol, roeddwn i'n gweld hi'n anodd datblygu sgiliau CD y disgyblion yn drawsgwricwlaidd gan fod yna diffyg cyfarpar a chyllid. Fel gweler yn enghraifft ddarluniadol 3, defnyddiodd y disgyblion offer fel iMacs, iPads a gliniaduron er mwyn ymchwilio gwybodaeth. Teimlaf fod ymchwilio gwybodaeth ar offer digidol yn ffordd hwylus o ddod o hyd i wybodaeth newydd ac mae astudiaeth Price-Dennis, Holmes a Smith (2015) yn awgrymu'r dull ymchwil a ffafrir gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 oedd defnyddio offer digidol. Ymhellach, roedd ymglymiad y disgyblion yn uwch gan eu bod yn defnyddio offer sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Ond ar y llaw arall, mae'r ffordd hyn o ddatblygu sgiliau CD ar draws y cwricwlwm yn un syml iawn. Yn ystod PAP 1, roeddwn i wedi cynllunio am syniadau mwy creadigol ond doedd yna ddim digon o offer i bob disgybl yn unigol, efallai dim ond tair iPad oedd ar gael i'r dosbarth cyfan o 27. Mae gwaith Chauhan, (2017) yn adnabod bod diffyg cyllid yn rhwystr enfawr i ddisgyblion cael gwella sgiliau CD. Yn ystod PAP 2, bydd rhaid i mi sicrhau bod yna digon o offer technolegol yn y dosbarth, neu gael y disgyblion gweithio mewn grwpiau bach i wella sgiliau CD. Yn gyfan gwbl, teimlaf fy mod wedi datblygu'r egwyddor addysgeg yma, ond dim cymaint ag byddwn wedi hoffi. Teimlaf fy mod i wedi ceisio cymhlethir agweddau trawsgwricwlaidd ac yn ystod PAP 2, bydd eisiau i mi ddefnyddio technegau mwy syml er mwyn datblygu'r elfen hyn ymhellach.

Asesu ar Gyfer Dysgu

Yn ystod PAP 1 ceisiais Asesu ar Gyfer Dysgu (AaGD) yn ystod pob gwers. Mae ymchwil Black a Wiliam (1998) yn pwysleisio bod AaGD yn gallu elwa pob disgybl. Ymhellach, awgryma Harlen (2006) bod AaGD dim yn rhywbeth rydyn yn ychwanegu at ddysgu, ond mae'n rhan hanfodol a dylid cael ei integreiddio'n awtomatig i addysgu. Fel y gwelir yn enghraifft ddarluniadol 1 yn yr adran AaGD, defnyddiais feini prawf llwyddiant. Mae'r astudiaeth gan Crichton a McDaid (2016) yn awgrymu bod y disgyblion a'r athrawon yn ymwybodol o gryfderau osod meini prawf llwyddiant. Penderfynais ddefnyddio mewnbwn y disgyblion i greu'r meini prawf gan fod defnydd 'llais y disgybl' yn flaenoriaeth yn fy ysgol lleoliad ac fe wnaeth y prifathro annog i mi ddefnyddio llais y disgybl i gynllunio gwersi a theimlais fod mewnbwn y disgyblion wedi elwa'r broses o greu meini prawf. Ymhellach, Mae Clarke, (2008) yn dadlau bod rhaid i feini prawf llwyddiant gael eu cynhyrchu gan ddisgyblion, os na, mae'n cael llai o effaith ar ddysgu. Teimlaf fod defnyddio meini prawf llwyddiant wedi gweithio yn dda o ran AaGD y disgyblion. Roedd gosod y meini prawf yn rhoi strwythur clir i'r disgyblion ynglŷn â sut i lwyddo. Hefyd, wrth osod meini prawf roedd yna gyd-ddealltwriaeth rhyngddo'r disgyblion a minnau ar ddisgwyliadau'r wers, mae'r gyd-ddealltwriaeth hyn yn allweddol ar gyfer llwyddiant disgyblion (Hattie, 2012). Serch y llwyddiant, teimlaf fod eisiau gwahaniaethu'r meini prawf ychydig er mwyn i bob disgybl cael siawns i gyrraedd yr amcanion. Yn ail, roeddwn yn teimlo fel bod yna ddim digon o amser ar ddiwedd wers i'r disgyblion cael llenwi allan y meini prawf. Yn ystod rhai gwersi rhuthrwyd cwblhau'r meini prawf ac ambell waith fe wnaeth ddim cael ei chwblhau o gwbl. Ar ôl y profiad, rydw i yn adnabod bod eisiau amseru'r gwersi yn well er mwyn sicrhau bod y meini prawf yn cael eu llenwi. Mae astudiaeth Ballet a Keichtermans (2009) yn awgrymu ta amseru yw un o'r agweddau sydd yn rhwystro meini prawf i gael eu llenwi. Mae'n rhywbeth sydd rhaid i mi ystyried er mwyn datblygu yn PAP 2.

Mae gwaith gan Wiliam, (2006) yn dweud bod rhaid rhoi amser mewn gwersi Mathemateg tuag at AaGD. Fel gweler yn yr ail enghraifft ddarluniadol ceisiais ddefnyddio byrddau gwyn unigol fel ffyrdd o AaGD mewn gwers yn ystod PAP 1. Teimlaf fod y defnydd o'r byrddau gwyn yn ddefnyddiol tu hwnt, yn enwedig yn ystod yr wythnos gyntaf o PAP 1 le roeddwn i dal yn dod yn gyfarwydd efo lefelau gallu'r dosbarth. Trwy ddefnyddio byrddau gwyn unigol a gweld lefelau'r disgyblion roedd hyn yn galluogi i mi weld pa dasgau roedd yn addas ar gyfer pob unigolyn. Ymhellach, roeddwn i yn gallu darganfod pa ddisgyblion roedd angen i mi ganolbwyntio fy amser arno i gefnogi. Yn ogystal â hyn, teimlaf fod byrddau gwyn wedi gweithio yn dda gan fod

y disgyblion yn poeni llai am wneud camgymeriadau ar y byrddau gwyn i gymharu efo gwneud camgymeriad yn eu llyfrau. Mae gwaith Brodie, (2014) yn esbonio bod camgymeriadau a gwallau yn rhesymol i ddisgyblion mewn gwersi Mathemateg er mwyn iddynt ddysgu a gwella. Wrth wneud camgymeriadau ar y byrddau gwyn teimlaf fod y disgyblion yn fwy tebygol i roi cynnig ar gwestiynau mwy heriol a bod yr adborth cloi a rhoddir yn annog y disgyblion i wneud yn well trwy ddyfalbarhad a gallant ddysgu o gamgymeriadau (Dweck, 2015). Wrth i PAP 1 datblygu, teimlaf fod defnydd y byrddau gwyn yn dechrau colli effaith gan fod ambell ddisgybl yn defnyddio'r byrddau gwyn i ddwldan ac efo'r disgyblion hyn, roedd y byrddau gwyn yn rhwystr iddyn nhw ganolbwyntio ar dasg. Roeddwn i yn tueddu o ddefnyddio'r byrddau gwyn ar gyfer pob gwers Mathemateg, ond yn y dyfodol mae rhaid i mi dethol a dewis y gwersi er mwyn i'r byrddau gwyn cael effaith ar ddysgu'r disgyblion.

Wrth i PAP 1 ddatblygu, teimlaf yn llawer mwy hyderus yn ceisio ffurfiau gwahanol a fwy creadigol o AaGD. Mae Wiliam (2011) yn cyfeirio at y ffaith bod amryw o ddulliau gwahanol o AaGD yn mynd i elwa'r dysgu. Felly, ceisies wneud yr un peth trwy ddefnyddio cardiau lliw fel gwelir yn enghraifft ddarluniadol 3. Mae gwaith Gardner, (2012) yn awgrymu bod defnyddio cardiau lliw le mae carden wyrdd yn nodi bod y disgybl yn hyderus yn y dasg, carden felen yn rhannol ansicr a charden goch yn nodi bod y disgybl yn gwbl aneglur yn ddangosydd da o hyder am y dasg/cwestiwn. Roedd defnyddio'r cardiau lliw yn ddefnyddiol gan ei fod yn ffordd weladwy o weld pa ddisgyblion roedd eisiau cymorth. Trwy atal y wers a chael 'mini-plenary' cefais y siawns i gael adborth o'r disgyblion am ba mor anodd roedd y dasg a'i lefelau dealltwriaeth. Cyfeiria gwaith Webb, (2013) bod 'mini-plenary' yn ffordd bwerus o gael gwybodaeth allan o'r disgyblion a theimlaf fel bod cardiau lliw wedi galluogi hyn. Ymhellach, roedd y cardiau lliw yn ffordd dda o 'sgaffaldio' gan fy mod yn gallu gweld pa ddisgyblion roedd angen cymorth i gyrraedd yr amcanion dysgu, mae astudiaeth Joyce-Gibbons, (2016) hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd 'mini-plenary' fel ffyrdd o sgaffaldio. Fel y gwelir yn yr enghraifft ddarluniadol roedd y dechneg hon yn effeithiol ac fe wnes i ei ddefnyddio yn weddol gyson trwy gydol PAP 1. Serch hynny, ni ddylwn fod yn or-ddibynnol ar y dechneg hon oherwydd gall fynd yn ddiflas ac efallai bydd disgyblion sydd yn ansicr am y dasg yn dangos cerdyn gwyrdd er mwyn osgoi cael adborth neu i wneud fwy o waith, felly bydd y cardiau yn colli eu pwrpas. Yn gyfan gwbl, rydw i'n teimlo fel fy mod wedi datblygu'r egwyddor addysgeg o AaGD trwy ddefnyddio ffurfiau mwy creadigol erbyn diwedd PAP 1. Yn ystod PAP 2 bydd rhaid i mi sicrhau fy mod i yn addasu'r dulliau i lefel disgyblion y cyfnod sylfaen. Ymhellach, mae rhaid i mi gadw newid y dulliau i sicrhau bod y disgyblion dim yn diflasu.

Cymysgedd o ddulliau

Y drydedd egwyddor addysgeg ceisiais ddatblygu yn ystod PAP 1 roedd i ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol. Awgryma Foshay a Kirkley, (2003) bod sgiliau datrys problemau yn hanfodol ar gyfer datblygiad cyfannol plant. Fel y gwelir mewn enghraifft ddarluniadol 1 o'r adran 'Cymysgedd o ddulliau' defnyddiais y dechneg o roi ateb anghywir ar y bwrdd gwyn i'r disgyblion cael datrys y broblem. Teimlaf fod y syniad wedi gweithio yn dda gan ei fod yn sbarduno meddyliau'r disgyblion. Mae Laine et al., (2014) yn pwysleisio'r ffaith ei fod yn ddefnyddiol i ddefnyddio problemau mewn gwersi er mwyn i'r disgyblion cael meddwl am ddatrysiadau gwahanol, mae hyn yn cyd-fynd efo dibenion cwricwlwm newydd Donaldson, (2015) le mae eisiau cyfranwyr mentrus a chreadigol. Teimlaf fod y dechneg hon yn un effeithiol ac fe wnes i ymestyn yr her hon y wers nesaf i'r disgyblion cael trafod efo'i gilydd fesul grŵp er mwyn ddatrys y broblem. Teimlaf fod cael y disgyblion i drafod efo'i gilydd yn llawer mwy effeithiol gan ei fod yn llawer mwy hwylus datrys problem fel grŵp yn lle ceisio datrys y broblem yn dawel yn feddyliau eu hunain. Ymhellach, wrth weithio fel grŵp arsylwais arweinwyr yn dod i'r amlwg wrth iddyn nhw gynorthwyo disgyblion gallu is ac arwain y drafodaeth. Roedd y dechneg o roi ateb anghywir er mwyn datblygu sgiliau datrys problemau yn llwyddiannus. Yn y dyfodol, mae'n bosib i mi ddefnyddio'r un dechneg mewn gwersi iaith Cymraeg, e.e. gosod brawddegau efo gwallau iaith i'r disgyblion cael cywiro. Yn ystod PAP 2 bydd rhaid i mi ymchwilio mewn i syniadau mwy syml i'r disgyblion Cyfnod Sylfaen, gan fod y dechneg hon yn gallu fod yn heriol am ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Yn ogystal â datblygu sgiliau datrys problemau'r disgyblion, ceisiais ddatblygu sgiliau creadigol y disgyblion hefyd. Mae sgiliau creadigol y dyddiau hyn yn ffocysu mwy ar y proses o greu rhywbeth nid y cynnyrch terfynol (Richards, 2010). Mae'r datganiad hyn yn debyg i'r amcanion y wers gweler yn enghraifft ddarluniadol 3, lle'r oedd yna siawns i'r disgyblion fod yn creadigol mewn ffordd unigryw. Teimlaf fod dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o hybu sgiliau creadigol y disgyblion. Mae gwaith Maynard, Waters a Clement (2013) yn awgrymu bod dysgu yn yr awyr agored yn hybu'r disgyblion i gymryd perchnogaeth o'r dysgu, hybu sgiliau creadigol a rhoi cyfle i'r disgyblion sydd yn tangyflawni yn y dosbarth i ddisgleirio. Wrth i ddisgyblion gweithio fesul grŵp, teimlaf fod hyn wedi cael effaith positif gan fod y disgyblion wedi cael siawns i rannu syniadau. Ymhellach, awgryma Carlile a Jordan, (2012) bod rhannu syniadau a gweithio'n gydweithredol yn mynd i wella sgiliau creadigol plant. Mae'r syniad hwn yn cefnogi gwaith Vygotsky (1978) a bwysleisiodd prosesau datblygiadol creadigrwydd mewn plant. Credaf fod y disgyblion o allu is mewn pynciau craidd wedi serennu yn eu sgiliau creadigol. Roedd o'n wych i weld y disgyblion hyn yn cyfrannu yn hyderus i'r wers, le yn wers arferol yn y dosbarth bydyn nhw yn llai hyderus i gyfrannu. Serch hynny, fe wnaeth bob disgybl mwynhau'r wers a deimlaf fod datblygiad mewn sgiliau creadigol yn pob disgybl. Er mwyn ddatblygu'r egwyddor addysgeg hon ymhellach, mae rhaid i mi gynnwys elfennau creadigol o fewn y dosbarth, roedd dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o hybu sgiliau creadigol. Ond, roeddwn i'n lwcus efo'r tywydd ac elfennau naturiol. Yn ystod PAP 2, teimlaf ei fydd yn rhwyddach cael elfennau creadigol i wersi'r Cyfnod Sylfaen, gan ei fod nhw yn dysgu trwy chwarae a bod yn bwyslais enfawr ar sgiliau creadigol yn y Sylfaen i gymharu efo Cyfnod Allweddol 2.

Mae'n bwysig i ddisgyblion o'r ysgol gynradd dechrau i feddwl mewn ffordd feirniadol, enwedig yn Gyfnod Allweddol 2 (Leicester a Taylor, 2010). Fel y gwelir yn enghraifft ddarluniadol 3 cefais y disgyblion i feddwl mewn modd beirniadol trwy drafod a rhoi esboniad am eu hatebion ynglŷn â rhannu gwybodaeth bersonol ar-lein. Mae gwaith Harlen, (2006) yn nodi'r pwysigrwydd o ddisgyblion yn cwestiynu ei gilydd. Gyda chwricwlwm newydd Donaldson, (2015) yn anelu at ddysgwyr mentrus a chyflogwyr yn meddwl bod y gallu i feddwl yn feirniadol yn sgil hanfodol (Casserly, 2012) teimlaf ei fod yn bwysig ceisio datblygu'r sgiliau hyn yn gynnar mewn addysg plentyn. Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi datblygu'r elfen hon o'r egwyddor addysgeg gan fy mod yn ceisio rhoi cyfle i ddisgyblion meddwl yn feirniadol trwy hunanasesu, asesu cyfoed ac fel gwelir yn yr enghraifft ddarluniadol. Roedd o'n braf i weld disgyblion Blwyddyn 4 meddwl yn feirniadol a hefyd rhoi barn aeddfed am bynciau ac y roedd yn fuddiol i gynnwys pob disgybl yn y drafodaeth ar ddiwedd y wers er mwyn iddyn nhw rannu syniadau ar y testun. Ar y cyfan, teimlaf fy mod wedi datblygu'r elfen hyn ond yn ystod PAP 2, bydd rhaid i mi feddwl am syniadau mwy creadigol o feddwl yn feirniadol ac efallai ei fydd yn fwy o her ceisio cynllunio hyn ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, teimlaf fy mod wedi datblygu'r gallu i ddefnyddio dulliau sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol. Erbyn PAP 2 bydd rhaid i mi barhau efo cynllunio yn fanwl er mwyn i'r disgyblion cael elwa o ddysgu sgiliau newydd.

Rhestr gyfeirio

Friday, December 13, 2019 3:07 PM

Cyfeiriadau

Black, P. and Wiliam, D. (1998). Inside the Black Box. Llundain: nferNelson

Brodie, K. (2014). Learning about learner errors in professional learning communities. *Educational studies in mathematics*, 85(2)

Carlile, O. a Jordan, A. (2012). Approaches to creativity. A guide for teachers. Efrog Newydd: Open University Press

Chauhan, S., 2017. A meta-analysis of the impact of technology on learning effectiveness of elementary students. *Computers & Education*, 105, tud.14-30.

Clarke, S. (2008). Active learning through formative assessment. Llundain: Hodder Education. Tud, 92.

Crichton, H. and McDaid, A., (2016). Learning intentions and success criteria: learners' and teachers' views. *The Curriculum Journal*, 27(2), tud,190-203.

de Koning-Veenstra, B., Steenbeek, H., van Dijk, M. and van Geert, P. (2014). Learning through movement: A comparison of learning fraction skills on a digital playful learning environment with a sedentary computer-task. *Learning and Individual Differences*, 36, tud.101-109.

Donaldson, G. (2015). [ar-lein] Gov.wales. ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/succesful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf> [Darllenwyd 2 Ionawr. 2020].

Dweck, C.S. (2015). Carol Dweck revisits the growth mindset. *Education Week*, 35(5), tud, 20-24.

Estyn.llyw.cymru. (2018). *Medrau Cymraeg da disgyblion yn cefnogi'r uchelgais am genedl ddwyieithog* | Estyn. [ar-lein] ar gael: https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/medrau-cymraeg-da-disgyblion-yn-cefnogi%E2%80%99r-uchelgais-am-genedl-ddwyieithog?_ga=2.149909174.1666709164.1576679701-1257129012.1573738628 [Darllenwyd 19 Rhag. 2019].

Foshay, R. and Kirkley, J. (2003). Principles for teaching problem solving. *Technical Paper*, 4.

Furió, D., Juan, M.C., Seguí, I. and Vivó, R., (2015). Mobile learning vs. traditional classroom lessons: a comparative study. *Journal of Computer Assisted Learning*, 31(3), tud. 189-201.

Gardner, J. (2012). Assessment and learning. Sage. Tud, 19.

Geiger, V., Goos, M., & Dole, S. (2014). Students' perspectives on their numeracy development across the learning areas. *Mathematics curriculum in school education*. Efrog Newydd, Springer. tud. 473–492.

Harlen, W. (2006). 'Assessment for learning and assessment of learning.' In: Harlen, W. (Ed) ASE Guide to Primary Science. Hatfield: Association for Science Education

Hattie, J. (2012). *Visible learning for teachers: Maximizing impact on learning*. Routledge.

Hwb.gov.wales. (2016). *Saesneg: Rhaglen Astudio Cyfnodau Allweddol 2-4 - Hwb*. [ar-lein] ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/cyfnodau-allweddol-2-i-4/saesneg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4/> [Darllenwyd 19 Rhag. 2019].

Joe, J. N., Tocci, C. M., & Holtzman, S. L. (2012). Considerations for developing a classroom observation system that helps districts achieve consistent and accurate scores. Princeton, NJ: Educational Testing.

Joyce-Gibbons, A. (2016). Observe, interact and act: teachers' initiation of mini-plenaries to scaffold small-group collaboration. *Technology, Pedagogy and Education*, 26(1), tud, 51-68.

Kerry, T. (2015). *Cross-curricular teaching in the primary school: Planning and facilitating*

imaginative lessons. Routledge.

Laine, A. et al. (2014). Development of Finnish Elementary Pupils' Problem- Solving Skills in Mathematics. *CEPS Journal : Center for Educational Policy Studies Journal*, 4(3), tud.111–129.

Leicester, M. & Taylor, D. (2010). *Critical thinking across the curriculum developing critical thinking skills, literacy and philosophy in the primary classroom*, Berkshire, Lloegr: Open University Press.

Maynard, T., Waters, J. and Clement, J. (2013). Moving outdoors: further explorations of 'child-initiated' learning in the outdoor environment. *Education 3-13*, 41(3), Tud, 282-299.

Price-Dennis, D., Holmes, K.A. and Smith, E., (2015). Exploring digital literacy practices in an inclusive classroom. *The Reading Teacher*, 69(2), tud,195-205.

Richards, R. (2010). Everyday creativity: Process and way of life—Four key issues. *The Cambridge handbook of creativity* Cambridge University Press, tud.189–215

Savage, J. (2010). *Cross-curricular teaching and learning in the secondary school*. Routledge.

Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in Society: The Development of Higher Psychological Processes*.

Webb, N. M. (2013). Information processing approaches to collaborative learning. In C. E. Hmelo-Silver (Ed.), *The international handbook of collaborative learning*. Efrog Newydd, NY: Routledge

William, D. (2011). What is assessment for learning?. *Studies in educational evaluation*, 37(1), tud, 3-14.